
# ARMAGEDON!



Wyt ti wedi gwneud popeth rwyt ti eisiau ei wneud yn ystod dy fywyd? Go brin, os wyt ti yn dy arddegau! Hyd yn oed pe baet ti lawer yn henach – yn 40 oed, 60 oed, neu'n 80 oed, mae'n siwr y byddai rhai pethau heb eu gorffen: y mannau dwyt ti heb wedi ei gweld, pobl dwyt ti ddim wedi eu cyfarfod, pethau dwyt ti ddim wedi eu cyflawni. Beth pe baet ti'n gwybod fod y byd yn mynd i ddod i ben ar amser penodol? Fyddit ti'n ceisio gwneud yr holl bethau hynny? Sut fyddet ti'n paratoi? 'Syniad crefyddol ydy diwedd y byd,' meddet ti, 'a dydw i ddim yn grefyddol'. Dydy hynny ddim yn hollol wir. Mae syniadau seciwlar yn ogystal â chrefyddol ynghylch sut bydd y byd yn dod i ben.
Wyt ti wedi gweld y ffilmiau *Deep Impact* neu *Armageddon* lle mae meteoryn anferth ar lwybr uniongyrchol at y Ddaear, ac yn dinistrio'r blaned? Neu'r ffilm *The Day after Tomorrow* ble mae newidiadau mawr i'r hinsawdd yn newid bywydau pawb a phopeth ar y Ddaear?

Mae syniadau o'r fath yn cael eu galw'n ELEs yn y Saesneg. Ystyr hynny yw '*extinction level events*' – digwyddiadau ar lefel difodiant. Mae ELEs yn cynnwys sawl tsunami anferth; methiant yng nghnydau'r holl fyd, yn arwain at newyn enfawr; afiechyd tebyg i'r Pla; neu hyd yn oed losgfynydd anferth. Mae rhai gwyddonwyr yn credu bod y llosgfynydd tawel dan Barc Yellowstone yn Unol Daleithiau America wedi hen gyrraedd cyfnod pan ddylai ffrwydro, a phan fydd hynny'n digwydd, bydd bywyd yn newid i bawb a phopeth ar y Ddaear.

Mae gwyddonwyr eraill wedi ystyried oes yr haul, gan amcangyfrif y bydd yn dechrau marw ymhen 5 biliwn o flynyddoedd, gan ddod yn seren enfawr ac yna oeri'n ddim.

A beth mae crefyddau yn ei ddweud am Armagedon - diwedd y byd?

Mae'r tair crefydd sy'n arddel un Duw - Cristnogaeth, Islam ac Iddewiaeth - i gyd yn dweud y bydd pob un ohonom yn cael ein barnu gan Dduw ar ddiwedd y byd.

Efallai dy fod wedi clywed am y '*Gwynfyd*' neu'r '*Rapture*' a oedd i fod i ddigwydd ar 21 Mai 2011 neu ar 21 Hydref 2011? Grwp bychan o Americanwyr benderfynnodd ar y dyddiadau hyn, sef dyddiau pan oedd Cristnogion i fod i gael eu codi oddi ar y ddaear hon a'u huno â Christ. Roedd y rhai nad oedd yn Gristnogion i gael eu gadael ar ôl. Ddigwyddodd dim, ond bydd dyddiad arall yn cael ei bennu, siwr o fod, felly gwell i ni wneud cymaint ag y gallwn ni cyn hynny! Beth wyt ti am ei wneud?

- Creu perthynas cystal ag y gelli gyda phawb rwyt ti'n ei adnabod?
- Maddau i rywun am rywbeth?
- Ymddiheuro i rywun am rywbeth wnest ti neu ddywedaist ti?
- Diolch i rywun?

Gorau po gynta y gwnei di o, rhag ofn!